# PWYLLGOR SAFONAU 09 MEDI 2008

**YN BRESENNOL: AELODAU ANNIBYNNOL:** Mr John Pollard (Cadeirydd), Mr Sam Soysa,

**AELOD PWYLLGOR CYMUNEDOL** Mr A.M.D.Clay

**AELODAU ETHOLEDIG:** Cynghorwyr Keith Greenly–Jones a Margaret Griffith (Cytunodd y Cyng. Margaret Griffith i fynychu'r cyfarfod fel sylwedydd yn unig ac i beidio cymryd rhan yn y cyfarfod er sicrhau'r cworwm o dan y rheoliadau perthnasol)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Dilys Phillips (Swyddog Monitro), Siôn Huws (Swyddog Priodoldeb) a Barbara Owen (Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau:** Cyng. Stephen Churchman, Mr Gwilym Ellis Evans, Mr Malcolm Jones,

**Croeso:** Estynodd y Cadeirydd groeso i'r aelodau newydd yn dilyn eu henwebu i'r Pwyllgor hwn.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datgan o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol

## 2. MATERION BRYS

Adroddodd y Swyddog Monitro i ddau gais yn ymwneud â gollyngiad ddod i sylw'r swyddogion ers i'r rhaglen gael ei dosbarthu. Cytunwyd i drafod y materion ar ddiwedd y cyfarfod.

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2008 fel rhai cywir.

## 4. CYNHADLEDD PWYLLGORAU SAFONAU (Cymru) 2008

Adroddwyd ar drefniadau'r Gynhadledd sydd i'w chynnal ar safle Prifysgol Aberystwyth ar 12 Medi. Estynwyd gwahoddiad i'r aelodau newydd i fynychu'r Gynhadledd a chytunodd Mr John Pollard, Mr A.D.Clay, y Cynghorwyr Margaret Griffith a Keith Greenly-Jones i dderbyn y gwahoddiad. Bydd y Swyddog Monitro yn cymryd rhan yn y gweithgareddau ar y diwrnod, a rhannwyd pecyn gwybodaeth i'r aelodau hynny fydd yn mynychu'r Gynhadledd.

## 5. CEISIADAU AM OLLYNGIAD GAN AELODAU O GYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb iddo dderbyn cais gan Clerc Cyngor Cymuned Llanfrothen ar ran chwech o aelodau'r Cyngor Cymuned am ollyngiad mewn perthynas â'r mater o drafod cau Swyddfeydd y Post.

Y chwe aelod yw'r Cynghorwyr O.G.Griffith; R.V.Roberts; Rhys A. Williams; D.Watts; Myrfyn Hughes; Emlyn Roberts.

Mae Menter Llanfrothen yn berchen ar y siop lle cynhelir gweithgareddau'r post, ac mae'r Swyddfa Bost yn Llanfrothen ymysg y nifer a fwriedir eu cau. Pan gyflwynwyd y cais roedd y Cynghorwyr O.G.Griffith, R.V.Roberts, Rhys A. Williams a D Watts yn aelodau o'r Bwrdd Rheoli, tra roedd y Cynghorwyr Myrfyn Hughes ac Emlyn Roberts wedi buddsoddi yn y fenter. Pe byddai rhaid i'r aelodau a enwir ddatgan diddordeb a gadael y cyfarfod, ni fyddai cworwm yn bodoli i bleidleisio ar y mater o'i drafod gan y Cyngor Cymuned. Adroddwyd i'r Cyng. D. Watts ymddiswyddo oddi ar y Bwrdd Rheoli ers cyflwyno'r cais ond ei fod wedi buddsoddi yn y fenter. Adroddwyd ymhellach gan y Swyddog Priodoldeb fod y Clerc wedi ei hysbysu fod y mater eisoes wedi codi mewn cyfarfod o'r Cyngor a bod y tri aelod oedd ar y Pwyllgor Rheoli wedi datgan buddaint a gadael y cyfarfod. Roedd y tri aelod arall serch hynny wedi cymryd rhan yn y drafodaeth gan nad oeddynt o'r farn fod y buddiant yn un oeddyn rhagfarnu. O ganlyniad felly llwyddwyd i gael cworwm.

Wrth drafod y mater, mynegodd aelod y farn na fyddai unrhyw farn o eiddo'r Cynghorau Cymuned yn dylanwadu'n uniongyrchol ar benderfyniad y grwp swyddogol fydd yn penderfynu ar dynged y swyddfeydd Post, tra ei bod yn bwysig bod barn y bobl yn y cymunedau yn cael ei chlywed mewn materion o'r fath, a bod hyn yn gorbwyso unrhyw fuddiant personol. Mynegodd aelod arall farn na ddylid caniatau gollyngiad i rai sydd â buddiant ariannol yn y fenter.

Adroddodd y Swyddog Monitro, er bod y chwe aelod a enwir â diddordeb yn dechnegol, eto gellir dadlau na fyddai buddiant ariannol o ganlyniad i unrhyw benderfyniad a wneir yng nghyfarfodydd y Cyngor Cymuned. Serch hynny cytunodd yr aelodau, er mwyn bod yn dryloyw, na ddylid caniatau gollyngiad i'r rhai sydd â buddsoddiad ariannol yn y fenter.

Nodwyd y byddai modd i'r aelodau ail-gyflwyno eu cais os oedd y penderfyniad yn peri trafferthion iddynt ond y dylid cael rhagor o wybodaeth gydag unrhyw gais diwygiedig.

**PENDERFYNWYD:**

**a) caniatáu gollyngiad i'r Cynghorwyr O.G.Griffith, R.V.Roberts a Rhys A. Williams ar Gyngor Cymuned Llanfrothen dan baragraffau 2(c), 2(ch) a 2(d) o Reoliadau'r Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 i gymryd rhan mewn trafodaeth a phleidleisio ar faterion yn ymwneud â'r Swyddfeydd Post, yn arbennig ar y bygythiad i'w cau, cyn belled nad oes ganddynt fuddiant ariannol yn y fenter.**

**b) gwrthod cais y Cynghorwyr Myrfyn Hughes, Emlyn Roberts a Dafydd Watts am ollyngiad**

## 6. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD LOUISE HUGHES

Adroddwyd bod cais wedi ei dderbyn oddi wrth y Cynghorydd Louise Hughes am ollyngiad i siarad a phleidleisio ar faterion ynglyn â threfniadaeth ysgolion. Gwnaed y cais am fod plentyn y Cynghorydd yn ddisgybl yn Ysgol Llanegryn, ac hefyd am ei bod yn Gadeirydd Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Chyfeillion Ysgol Llanegryn. Mae hi hefyd yn lywodraethwr ond eglurwyd nad oedd hynny ynddo'i hyn yn ei rhwystro rhag cymryd rhan oherwydd fod eithriad penodol yn y cod ymddygiad.

Atgoffwyd yr aelodau o geisiadau cyffelyb a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Safonau ac o'r canllawiau a osodwyd bryd hynny ar gyfer ystyried ceisiadau o'r fath, O dan y canllawiau hynny ni fyddai'r Pwyllgor fel rheol yn caniatau gollyngiad i gymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau ynglŷn â'r ysgol lle mae ei phlentyn yn ddisgybl.

**PENDERFYNWYD caniatáu gollyngiad i'r Cynghorydd Louise Hughes dan baragraff 2(ch) a (d) o Reoliadau'r Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 i gymryd rhan mewn trafodaeth a phleidleisio ar y Cynllun Trefniadaeth Ysgolion ar yr amod nad yw'r gollyngiad yn ymestyn i drafodaethau ar ddyfodol unrhyw ysgol lle mae plentyn y Cynghorydd Hughes yn ddisgybl.**

**7. MATER BRYS (1)**

**CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD ALWYN GRUFFYDD**

Adroddodd y Swyddog Monitro iddi dderbyn cais gan y Cynghorydd Alwyn Gruffydd am ollyngiad i'w ganiatau i siarad ond dim pleidleisio ar faterion yn ymwneud â Cymdeithas Tai Eryri.

Mae'r Cynghorydd yn berchen ar fusnes marchnata a chysylltiadau cyhoeddus ac mae Cymdeithas Tai Eryri yn gleient iddo. Mae'r Cynghorydd Gruffydd hefyd yn Arweinydd Portffolio Gofal Cwsmer ar Gyngor Gwynedd ac yn gyfrifol am faterion Eiddo ar ran y Cyngor. Gan fod yr Adran Eiddo'n gwerthu tir i'r Gymdeithas am bris gostyngol ar gyfer codi tai fforddiadwy, nid yw'r Cynghorydd yn gallu cyflawni ei rôl fel Arweinydd Portffolio mewn materion sy'n delio â'r Gymdeithas, ac felly gofynnir am ostyngiad dan baragraff 2(dd) o'r Rheoliadau.

Adroddodd y Swyddog Monitro nad yw'r Cod Ymddygiad newydd yn darparu ar gyfer sefyllfaoedd lle caniateir i Aelodau siarad yn unig a pheidio pleidleisio, ond mai'r farn gyffredinol oedd y gallai'r Pwyllgor Safonau ganiatau cais o'r fath.

Wrth drafod, mynegwyd y farn bod buddiant y Cynghorydd Gruffydd yn rhy gryf i ganiatau gollyngiad oherwydd ei fod o natur ariannol a chytunwyd yn unfrydol i wrthod cais y Cynghorydd.

**PENDERFYNWYD gwrthod cais y Cynghorydd Alwyn Gruffydd am ollyngiad mewn materion yn ymwneud â Chymdeithas Tai Eryri.**

**8. MATER BRYS (2)**

**CAIS AR RAN CYNGOR CYMUNED ARDUDWY/TALYBONT**

Adroddodd y Swyddog Monitro ar gais (ôl-weithredol) a gyfeiriwyd i'w sylw am ollyngiad ar ran aelodau Cyngor Cymuned Ardudwy/Talybont. Mae aelodau'r Cyngor Cymuned hefyd yn gweithredu ar y Pwyllgor Cae Chwarae lleol sydd wedi ei gofrestru fel elusen, gyda'r Cyngor Cymuned yn Ymddiriedolwr o'r elusen hwnnw. Gan fod y Cyngor Cymuned yn awyddus i gyfrannu dros £500 i ddatblygu'r Cae Chwarae, gofynnwyd am ollyngiad i'r aelodau oherwydd y buddiant.

Adroddwyd fod y mater eisoes wedi ei drafod gan y cyngor cymuned a'i fod wedi penderfynu talu'r swm ac nad oedd gan y pwyllgor yr hawl i ystyried ceisiadau ôl-weithredol. Serch hynny, roedd y Swyddog Monitro am dynnu sylw'r Pwyllgor Safonau at y mater oherwydd y posibilrwydd o dderbyn ceisiadau tebyg yn y dyfodol. Cynghorwyd yr aelodau nad oedd buddiant yn bodoli os mai'r Cyngor Cymuned fel corff sy'n Ymddiriedolwr yn hytrach na'r aelodau fel unigolion. Os mai'r aelodau fel unigolion sydd yn ymddiriedolwyr ond eu bod wedi eu penodi neu eu henwebu gan y Cyngor Cymuned yna mae eithriad yn bodoli o dan y Cod Ymddygiad sy'n eu galluogi i gymryd rhan.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 11.40am.